

# Canllaw Gwasanaeth  Landlordiaid



Mae Awdurdodau Lleol yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniad cadarnhaol mae'r Sector Rhentu Preifat yn ei gael wrth fodloni anghenion tai yng Nghymru. Mae'r sector yn parhau i ehangu ac mae'n cynnig amrywiaeth o opsiynau tai i nifer cynyddol o gartrefi.

Mae Canllawiau Gwasanaeth Landlordiaid wedi cael eu llunio er mwyn dangos yr ystod o wasanaethau sydd wedi cael eu datblygu gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Y bwriad yw cefnogi landlordiaid trwy bob agwedd o'r broses ddatblygu a rheoli, a galluogi llwybr cyfathrebu uniongyrchol i'r gwasanaethau sydd ar gael ym mhob awdurdod.


Conwy
Sir y Fflint
Ynys Mon
Sir Ddinbych
Wrecsam
Gwynedd
Powys
Ceredigion
Sir Fynwy
Sir Benfro
Blaenau Gwent
Caerffili
Torfaen
Casnewydd
Sir Gaerfyrddin
Abertawe
Rhondda Cynon Taf
Caerdydd
Pen y Bont
Bro Morgannwg
Castell-nedd Port Talbot
Merthyr Tudful



# Blaenau Gwent

Mae Cyngor Blaenau Gwent wedi datblygu amrywiaeth o wasanaethau a chymhellion i gefnogi landlordiaid a thenantiaid sydd naill ai yn neu'n ystyried y sector rhent preifat.

- Cyngor cyffredinol ar denantiaethau/dadfeddiannu ar gyfer landlordiaid a thenantiaid. Atgyfeirio a chyfeirio at wasanaethau priodol os oes angen. Ymyriad cynnar i geisio datrys anghydfodau a phroblemau tenantiaeth
- Cymorth wrth gael mynediad i lety yn y sector rhent preifat, yn cynnwys gwybodaeth ar gynlluniau bond a rhent ymlaen llaw
- Cynlluniau cymhelliant i landlordiaid sy'n dymuno gweithio gyda ni i gynorthwyo pobl i'w hanheddau
- Cydlynu Fforwm Landlordiaid
- Benthyciadau Gwella Cartrefi
- Rhannu Llety

Mae gan y ganolfan hefyd ddau gyfrifiadur yn y dderbynfa sy'n galluogi aelodau o'r cyhoedd i gael mynediad i amrywiaeth o wasanaethau tai yn cynnwys medru cael mynediad i safle benodol i chwilio am lety rhent preifat, gwirio cofrestr Rhentu Doeth Cymru, cael mynediad i wybodaeth ar wasanaethau lleol a llenwi ceisiadau i'r Adran Gwaith a Phensiynau am fudd-daliadau a chyfrif budd-daliadau. Mae hefyd ystafell ar gyfer cyfweliadau preifat ar gyfer pobl y byddai'n well ganddynt siarad yn uniongyrchol gydag aelod o staff.

Os hoffech ymweld neu gysylltu â swyddogion yn y Ganolfan, edrychwch ar yr wybodaeth ddilynol os gwelwch yn dda:


**Cyfeiriad:** Canolfan Cyngor Tai, 20 Stryd yr Eglwys, Glynebwy, NP23 6BG

**Oriau agor:** 9.30am-4.00pm dyddiau Llun i ddyddiau Gwener (ac eithrio Gwyliau Banc)

**Ffôn:** 01495 354600 (Opsiwn 1 - Cofrestr Tai / Opsiwn 2 - Digartrefedd)

**E-bost:** housing@blaenau-gwent.gov.uk

**Gwefan:** www.blaenaugwenthomes.org.uk




# Caerffili

Mae ein Canolfan Cyngor ar Dai wedi ei leoli yn Nhŷ Gilfach, Stryd William, Bargod, CF81 8ND. **Rhif ffôn** - 01443 873552 neu **e-bost:** cyngorardai@caerffili.gov.uk

- Mae'r tîm Cyngor ar Dai yn gyfrifol am ddarparu'r gwasanaethau canlynol
- Cyngor i'r sector tai preifat ar gyfer landlordiaid a thenantiaid
- Cydlyniad Fforwm Landlordiaid Preifat Caerffili
- Canolfan Gyswllt a gwasanaeth darganfod tenantiaid ar gyfer Landlordiaid y Sector Preifat
- Cysylltiadau â grantiau a gwasanaethau cynllunio
- Mynediad a chyfeirio at gymorth tenantiaeth, cynllun bond, cyngor ar ddyled a chyllidebu, gwasanaethau cyfryngu trais yn y cartref a phobl ifanc arbenigol
- Digartrefedd ac atal digartrefedd

Y Prif Swyddog Tai yw Suzanne Cousins - Rhif Ffôn 01443 873552 neu e-bost: **cousis@caerffili.gov.uk**

# Pen-y-Bont




- Early Doors – dyma wasanaeth sy'n rhoi cymorth i landlordiaid a thenantiaid y sector breifat sydd wedi mynd i ddyled *
- Tenancy Crisis – ar gyfer pobl rhwng 16 a 21 oed *
- Hwb Gwalia – mynediad i gyngor, cymorth a chymorth fel y bo angen *
- Fforymau Landlordiaid
- Dod o Hyd i Denant
- Cynllun Wallich Bond
- Financial Inclusions – ymgynghorydd dyledion Shelter Cymru
- Swyddog Atal – ymgynghorydd Shelter Cymru sy'n rhoi cyngor i'r landlord a'r tenant
- Gwasanaeth cyflafareddu pobl ifainc *
- Cysylltiadau i Grantiau a Gwasanaethau Cynllunio

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â

Sue Cunningham

**Rhif Ffôn:** 01656 643540

**E-bost:** susan.cunningham@bridgend.gov.uk



# Ceredigion


Gall timau tai Cyngor Sir Ceredigion gynnig cyngor ac arweiniad mewn perthynas â'r canlynol;

- Digartrefedd ac atal digartrefedd
- Cyfrifoldebau Landlordiaid
- Amodau Tai
- Tai Amlfeddiannaeth a Trwyddedu
- Cofrestr Tai (rhestr aros Tai Cymdeithasol)
- Cyngor ar Budd-daliadau
- Cynllun Gwarantu Bondiau
- Diogelu Tenant rhag i neb aflonyddu arno na'i droi allan yn Anghyfreithlon
- Eiddo gwag
- Fforwm Landlordiaid
- Benthyciadau gwella eiddo di log a grantiau effeithlonrwydd ynni
- Strategaeth Dai

Mae gwefan Cyngor Sir Ceredigion yn darparu gwybodaeth i Landlordiaid a Tenantiaid. **www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/tai/**

Os byddai'n well gennych siarad ac ymgynghorydd ynghylch ac unrhyw un o'r materion uchod gallwch gysylltu a ni ar **01545 570881** neu ebost **tai@ceredigion.gov.uk**

# Caerdydd




Mae Dewisiadau Tai Caerdydd mewn lleoliad canolog yn y Gwasanaeth Dewisiadau Tai, Hansen Street, Caerdydd CF10 5DW. Ein cyfeiriad e-bost yw **TimSectorRhentPreifat@caerdydd.gov.uk**, ein rhif ffôn yw **02920 570750**.

Mae'r Tîm Dewisiadau Tai yn darparu'r gwasanaethau canlynol:

- Cyngor ar Dai i landlordiaid a thenantiaid
- Gwasanaeth dod o hyd i denantiaid am ddim
- Tîm dynodedig yn cynnig pwynt cyswllt unigol
- Help i wneud cais am grantiau
- Dull cadarn o baru tenantiaid
- Archwilio Eiddo (sy'n cynnwys llunio rhestr o'r cynnwys)
- Ymweliadau ag eiddo
- Cyngor ar Fudd-dal Tai
- Gwasanaeth Budd-dal Tai Llwybr Carlam
- Taliadau Budd-dal Tai uniongyrchol
- Cyngor a chymorth gydag ôl-ddyledion rhent
- Cyfryngu
- Helpu'r tenant i drin cyllid a rhoi cyngor ar ddyledion
- Cymorth gyda thenantiaethau hirdymor

Mae ein tîm yn gweithio mewn partneriaeth â llawer o landlordiaid ac Asiantau Tai ledled Caerdydd i ddod o hyd i'r tenant priodol ar gyfer eich eiddo. Cysylltwch â'r tîm drwy ffonio **02920 570665**

# Carmarthenshire



GOSOD SYML SIMPLE LETTINGS

Y ffordd symlaf o osod eich eiddo - gadewch i ni wneud y gwaith caled...

Mae gennym lawer o denantiaid sy'n aros am gartref, a gallwn gynnig amrywiaeth eang o wasanaethau gyda manteision hael, gan gynnwys cymorth ariannol ac ymarferol.

Dewiswch o blith ein tri phecyn deniadol i gael hyd i lefel y gwasanaeth sydd fwyaf addas i'ch anghenion...

**Cysylltwch â ni heddiw!**

## Galwch: 01554 899499

**Ebostiwch: gosodsyml@sirgar.gov.uk**
**Ewch i: gosodsyml.cymru**

### AUR

Rhent gwarantedig am bum mlynedd o leiaf, gan gynnwys yr holl gostau atgyweirio, cynnal a chadw a rheoli. Rhowch eich allweddi i ni a derbyniwch eich rhent - mae mor syml â hynny!

### ARIAN


Gwasanaeth rheoli eiddo llawn am bris cystadleuol, gyda chymhellion hael, fel cymorth i wella'ch eiddo.

### EFYDD

Cynllun canfod tenant cost isel, gyda manteision ychwanegol.

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

# Conwy



Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cynnig y gwasanaethau canlynol:

Mae Asiantaeth Osod HAWS yn bartneriaeth rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chartrefi Conwy sy'n cynnig y gwasanaethau canlynol i landlordiaid – casglu rhent, gosod yn unig, derbyn eiddo gyda thenantiaid, gwasanaethau ar brydles, a gwasanaethau rheoli llawn. I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â **Haws@cartreficonwy.org**, **01492 335690** neu **www.haws.org.uk/gwasanaethau/**

Fforwm Landlordiaid Cynhelir 3 gwaith y flwyddyn mewn partneriaeth â Chymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid ac mae ar agor i bob landlord gweithredol yng Nghonwy. I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â **datrysiadautai@conwy.gov.uk 01492 335690** neu **https://landlords.org.uk/**

Cyswllt Landlordiaid Gwybodaeth a chymorth ar gyfer landlordiaid wedi ei anelu at ddatrys problemau gyda thenantiaid. e.e. ôl-ddyledion rhent, problemau yn cael mynediad at wiriadau blynyddol ac ati. I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â **0300 124 0050** neu **www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Housing/Housing.aspx**

Benthyciadau Gwella Tai Benthyciadau i wella effeithlonrwydd tanwydd, a diogelwch. I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â **01492 577314** neu **01492 574174 cymorth.ariannol.tai@conwy.gov.uk** neu **www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Housing/Housing-Improvements/Housing-Improvements.aspx**

Ymholiadau ynghylch addasiadau ar gyfer tenantiaid anabl Os oes angen addasiadau ar denantiaid, efallai y bydd gan Landlordiaid gwestiynau ynghylch gosodiadau fel lifftiau cadair, a'r hyn sy'n digwydd lle nad oes eu hangen bellach. I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â **01492 577314** neu **01492 574174 cymorth.ariannol.tai@conwy.gov.uk** neu **www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Housing/Housing-Improvements/Housing-Improvements.aspx**

Benthyciadau Eiddo Gwag Benthyciadau i helpu rhoi defnydd newydd i gartrefi gwag. Gall hyn hefyd gynnwys hen eiddo nad yw'n un preswyl os caiff ei drawsnewid yn gartrefi I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â **01492 574235 strategaethtai@conwy.gov.uk** neu **www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Housing/Empty-Homes/Empty-Homes.aspx**


Gwybodaeth a chyngor i Landlordiaid am fudd-daliadau lles yn ymwneud â thai Cynhelir cyfarfod agored ar gyfer landlordiaid bob chwarter blwyddyn gyda staff Budd-dal Tai. I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â **01492 576491 ymholiadau.budd.tai@conwy.gov.uk** neu **www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Benefits-and-grants/Housing-Benefits/Housing-Benefits.aspx**

Gorfodaeth Tai Conwy Cofrestru tai amlfeddiannaeth, cyngor a gwybodaeth ar Iechyd a Diogelwch tai, niwsans sŵn, cyngor ar blâu ac amodau glanweithiol gwael. I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â **01492 576614** neu **www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Housing/Advice-and-Support/Housing-Conditions.aspx**

Canolfan Fusnes Conwy Cyngor busnes i landlordiaid a datblygwyr eiddo. I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â **01492 574574 canolfanfusnes@conwy.gov.uk** neu **http://canolfanfusnesconwy.com**

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Cyfleoedd buddsoddi: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â **bywydybae@Conwy.gov.uk** neu **www.conwy.gov.uk/cy/Business/Regeneration/Colwyn-Bay-Regeneration/Bay-Life-Regeneration-Programme/Colwyn-Bay-perfectly-placed-for-investment.aspx**

Mae'r Swyddog Prosiect Ffoaduriaid o Syria yn awyddus i siarad â landlordiaid yn y sector rhentu preifat a allai fod â chartrefi i'w rhentu yn Sir Conwy. I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â **Jackie.Moss@sirddinbych.gov.uk, 01824 708393, 07748931008, lynsey.blackford@conwy.gov.uk**,



# Merthyr Tudful

Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod cyfraniad pwysig Landlordiaid y Sector Preifat wrth ddarparu tai yn y gymuned leol. Mae CBS Merthyr Tudful yn dymuno cryfhau'r berthynas yma ymhellach drwy ddarparu cyngor, cymorth a chefnogaeth i landlordiaid lleol er mwyn sicrhau bod modd iddyn nhw reoli eu heiddo gyda chyn lleied o anawsterau â phosibl.

Bydd landlordiaid preifat, o bosibl, yn cael problemau gyda chynnal a chadw eiddo, problemau gyda thenantiaid, difrod a cholli refeniw o ganlyniad i denantiaid ddim yn talu'r rhent.

Mae modd i GBS Merthyr Tudful ddarparu cymorth, cyngor a chefnogaeth i landlordiaid preifat mewn perthynas â rheoli eiddo, mynediad at arian grant, budd-daliadau tai, treth y cyngor, rheoli tenantiaeth / tenantiaid a newidiadau cyfreithiol.


Yn ogystal â hyn, mae'r awdurdod lleol yn dymuno ymgynghori ymhellach a gofyn beth ydych chi ei angen, a chithau'n landlordiaid, er mwyn cryfhau'r berthynas ymhellach.

Mae'r awdurdod lleol a landlordiaid preifat yn wynebu heriau ac efallai bydd angen cadw at newidiadau cyfreithiol sydd wedi'u pennu gan Lywodraeth Cymru. Nod yr awdurdod lleol yw cefnogi landlordiaid preifat trwy'r newidiadau yma a chroesawu unrhyw landlord sy'n cysylltu â ni am gyngor, cymorth neu gefnogaeth yn ymwneud ag unrhyw eiddo, tenant neu fater rheoli tenantiaeth.

Mae croeso i unrhyw landlord gysylltu â'r awdurdod lleol i drafod unrhyw fater.

Cyfylltwch 01685 725000

# Castell-nedd Port Tal-



Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Asiantaeth Gosod Tai Cymdeithasol

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn gweithredu Asiantaeth Gosod Tai Gymdeithasol (SLA) sy'n rheoli eiddo sector rhent preifat ar ran y landlord.


Mae'r Asiantaeth Gosod Tai Cymdeithasol yn darparu llety i'r unigolion hynny sydd ag angen am dai ar unwaith, ac efallai na fyddant fel arfer yn gallu cael mynediad i'r Sector Rhentu Preifat boed hynny trwy incwm isel, digartrefedd neu fregusrwydd. Mae ein gwasanaeth yn cwmpasu pob agwedd ar reoli eiddo ac rydym yn darparu cymorth tenantiaeth i helpu i gynnal

Nid oes unrhyw ffioedd cychwynnol ac mae'r canlynol yn rhad ac am ddim:

- Cyngor tai ar gyfer landlordiaid i helpu i gyflawni'r gofynion deddfwriaethol lleiaf a gynhwysir yn Neddf Tai (Cymru) 2014.
- Rydym yn gwirio unrhyw hanes tenantiaeth dlawd blaenorol
- Byddwn yn cynnal asesiad o addasrwydd a fforddiadwyedd yr eiddo
- Byddwn yn darparu rhestr eiddo gyda thystiolaeth ffotograffig
- Mae gennym gyflenwad cyson o gartrefi sy'n chwilio am lety yn y sector preifat, felly rydym yn anelu i gynnal golygfeydd yn gyflym
- Byddwn yn cynnal ymgeisio tenantiaeth lawn a phecyn croeso i denantiaid
- Mae gennym Dîm penodol sy'n cynnig un pwynt cyswllt
- Golygfeydd eiddo gyda darpar denantiaid
- Eiddo sy'n cael ei osod ar gyfraddau lwfans tai lleol fel eu bod yn fforddiadwy
- Cynorthwyo tenantiaid i wneud cais am fudd-daliadau (er enghraifft budd-dal tai a chredyd cyffredinol)
- Cynorthwyo tenantiaid ar sefydlu cyfleustodau
- Cyngor a chymorth ar ôl-ddyledion rhent
- Cyfryngu rhwng landlord a thenant

Mae ein staff profiadol, proffesiynol a gwybodus yn darparu gwasanaeth rheoli gwerth am arian. Gallwch gysylltu â'r tîm ar **01639 685951** neu **socialletings@npt.gov.uk**

# Casnewydd



Mae'r Uned Anghenion Tai wedi'i lleoli yn yr Orsaf Wybodaeth, Queensway, Casnewydd NP20 4AX.


Ffoniwch Ganolfan Gyswllt Cyngor y Ddinas ar 01633 656656 neu e-bostiwch **rehousing.services@newport.gov.uk**

Mae'r carfanau o fewn yr Uned Anghenion Tai yn cynnig ystod o wasanaethau ar draws Casnewydd sy'n cynnwys y canlynol:

- Cyngor ar Dai ar gyfer landlordiaid a thenantiaid
- Mynediad at gyngor cyllidebu i denantiaid
- Mynediad at wasanaethau cymorth tenantiaeth i denantiaid ar gyfer y tymor hir neu ar gyfer tenantiaid sydd mewn argyfwng
- Taliadau ariannol i landlordiaid i sefydlu tenantiaethau ar gyfer tenantiaid sydd wedi'i hatgyfeirio neu sy'n derbyn cymorth
- Cymorth i denantiaid i ddatrys problemau yn ymwneud â'r system fudd-daliadau
- Atgyfeirio at grantiau ar gyfer adnewyddu tai drwy ein Carfan Strategaeth Dai
- Cyfleoedd i brydlesu eiddo'n uniongyrchol i'r Cyngor mewn rhai achosion

Mae'r garfan yn gweithio ar draws Casnewydd ac mae ganddi nifer o landlordiaid ac asiantau gosod sy'n gweithio gyda hi yn yr ardal.

# Monmouthshire



# ANGEN LANDLORDIAID

GWASANAETH GOSOD SIR FYNWY

**Ydych chi'n berchen eiddo yr ydych yn ei osod ar hyn o bryd neu'n dymuno ei osod?**

**Pam na wnewch adael i ni ei reoli drosoch?**

## Pam ein dewis ni?

- Gwasanaeth "dim trafferth, dim ffi" cyfeillgar a proffesiynol
- Pecyn pwrpasol "Croeso Euraid"
- Opsiynau rhent gwarantedig
- Archwiliadau chwarterol o'ch eiddo
- Tîm mewnol trwsio a thrydanol
- Gwasanaeth galw allan 24 awr ar gyfer gwaith trwsio argyfwng




01291 635713

Monmouthshire Letting Service

mls@monmouthshire.gov.uk

@MonLettings

# Sir Benfro



Pathway Lettings yw Asiantaeth Gosod Tai Cymdeithasol Sir Benfro sy'n cael ei rheoli gan Gymdeithas Gofal Sir Benfro, sy'n elusen gofal digartref gofrestredig. Y prif nod yw canfod a rheoli, ar ran landlordiaid preifat, llety fforddiadwy addas i unrhyw un sy'n dioddef o ddigartrefedd neu dan fygythiad o fod yn ddigartref. Mae gwasanaeth tair haen ar gyfer Landlordiaid ar gael. Mae modd i ni reoli eu heiddo yn llawn, gosod tai yn unig, sy'n cynnwys sefydlu tenantiaeth, neu ddarparu gwasanaeth rhagarweiniol yn unig ar gyfer y landlordiaid neu'r asiantaethau gosod hynny sy'n rheoli eu heiddo eu hunain. Rydyn ni hefyd yn darparu gwasanaeth canoli i landlordiaid a gwasanaeth ymyriad mewn argyfwng os yw tenantiaethau'n methu. Mae Cymdeithas Gofal Sir Benfro yn gweithio mewn partneriaeth ag Adran Dai Cyngor Sir Benfro.

Mae Pathway Lettings yn aelod o Achrediad Landlordiaid Cymru, yn asiant trwyddedig gyda Rhentu Doeth Cymru, wedi'i gofrestru gyda'r Gymdeithas Landlordiaid Preswyl ac Ombwdsmon Eiddo, yn aelod o Client Money Protect ac yn dal yr achrediad Safon Ansawdd Cyngor.


Mae Cymdeithas Gofal Sir Benfro yn darparu nifer o wasanaethau eraill gan gynnwys cyngor tai, rheoli Cynlluniau Bond asiantaethau eraill a'i Chynllun Bond Tystysgrif ei hunan sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Rydyn ni hefyd yn rhedeg Gwasanaeth Cefnogi Tenantiaeth Generig Sir Benfro sy'n cael ei ariannu gan wasanaeth Cymorth i Bobl, sy'n cynorthwyo tenantiaid presennol a newydd ar draws bob sector i gynnal eu tenantiaethau.

E-bost: **info@pathwaylettings.org**

Ffon: 01437 766625

**www.pathwaylettings.org**

# Powys



Ym Mhowys, datblygwyd cynllun dod o hyd i dai preifat ar rent gyda chanolfannau cyngor mewn saith o drefi Powys: Y Trallwng, Y Drenewydd, Machynlleth, Llandrindod, Tref-y-clawdd, Aberhonddu ac Ystradgynlais. Mae'r canolfannau hyn yn cynnig cyngor a chymorth ar dai'r sector preifat i gleientiaid allu sicrhau llety cynaliadwy a fforddiadwy, i atal digartrefedd ac i gynnig y gwasanaethau canlynol i landlordiaid a thenantiaid:

- Sicrhau fod cleientiaid yn gallu fforddio eiddo cyn cymryd y denantiaeth, a chyngor ar dai
- Cynllun Bond Pobl
- Cynllun Gwarant Bond Powys
- Gwasanaeth am ddim i ddod o hyd i denantiaid a pharu tenantiaid.
- Un man cyswllt i landlordiaid a thenantiaid.
- Cyngor cyfreithiol am ddim i denantiaid gan Shelter Cymru.
- Help i wneud cais am grantiau a benthyciadau i ariannu costau tai ymlaen llaw
- Cyngor ariannol am ddim i denantiaid e.e. cyllidebu, rheoli dyledion ac ati
- Cymorth fel bo'r angen am sefydliadau cymorth
- Archwilio eiddo (gan gynnwys llunio rhestr eiddo)
- Cyngor ar y system mesur iechyd a diogelwch ar gyfer tai i geisio codi safonau eiddo.
- Cyfryngu rhwng landlord a thenant
- Cyngor ar fudd-dal Tai/Credyd Cynhwysol
- Talu budd-daliadau tai'n uniongyrchol, lle'n berthnasol
- Benthyciadau gwella i landlordiaid
- Cyngor ar Rentu Doeth Cymru
- Gwybodaeth ar gynlluniau effeithlonrwydd ynni, cynllun help gyda dŵr a chyllid perthnasol arall.


Bydd landlordiaid sy'n fodlon gweithio gyda'r cyngor a chynnig llety o ansawdd da sy'n cael ei gynnal a chadw'n dda, yn gallu derbyn cymorth ymarferol wrth ddod o hyd i denantiaid, a mentrau i sicrhau tenantiaethau cynaliadwy. Lle mae yna ddiffyg llety addas a fforddiadwy, fe wnawn ein gorau glas i weithio ar draws ffiniau gydag Awdurdodau Lleol cyfagos.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â: Caron Jones neu Ben Tomlins

**caron.jones@powys.gov.uk** / **ben.tomlins@powys.gov.uk**

Cyswllt: 01597 827464

# Rhondda Cynon Taf



Er mwyn cydnabod pwysigrwydd rôl y Sector Rhentu Preifat wrth ddarparu llety i bobl sydd angen tai, mae Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi datblygu ystod o wasanaethau a chymhellion sydd wedi'u cynllunio i gefnogi landlordiaid, cynyddu cyflenwad llety ar rent a darparu tenantiaethau cynaliadwy tymor hir yn y Sector Rhentu Preifat.

Mae modd i landlordiaid sy'n gweithio gyda'r cyngor ac sy'n darparu llety o safon uchel gael cymorth ymarferol wrth ddod o hyd i ddarpar denantiaid ynghyd â chymhellion ariannol i sefydlu tenantiaethau cynaliadwy.

Lle mae prinder llety mewn ardaloedd o alw eithriadol o uchel, mae modd i'r cyngor ddarparu gwasanaethau a chymhellion ychwanegol sydd wedi'u cynllunio i leihau risgiau canfyddedig a gwobrwyo'n ariannol landlordiaid sy'n barod i weithio gyda'r cyngor a rhoi llety i deuluoedd sydd angen tai.

Gwefan: **www.rctcbc.gov.uk/EN/Business/LandlordGuidance/Landlordincentivescheme.aspx**

E-bost: **Robert.Antonio@rctbc.gov.uk**

Rhif Ffôn 01443 281136

Rob Antonio


Swyddog Datblygu'r Sector Rhentu Preifat

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Uwchadran Adfywio a Chynllunio

Tŷ Sardis, Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU

# Abertawe



**Mae Tîm Mynediad Sector Rhentu Preifat The Wallich a thîm Opsiynau Tai Abertawe yn gweithio mewn partneriaeth i gynnig amryw o wasanaethau i landlordiaid a thenantiaid.**

Mae Cyngor Abertawe yn cydnabod y rôl bwysig y mae landlordiaid ac asiantau gosod yn ei chwarae i ddarparu llety. Yn cydweithio i gynyddu'r cyflenwad o eiddo o ansawdd da, sydd yn addas ac yn fforddiadwy ar gyfer unigolion ac aelwydydd y mae arnynt angen tai.

Gellir cynnig cymorth mewn amryw o ffyrdd i atal digartrefedd; mae hwyluso mynediad i'r sector rhentu preifat yn cynyddu'r posibilrwydd o gynnal tenantiaeth.


## Mae gwasanaethau a chymorth yn cynnwys:

- Cyngor ynghylch y sector rhentu preifat i landlordiaid a thenantiaid
- Gwasanaeth dod o hyd i denant am ddim.
- Cymorth i gael mynediad i'r sector rhentu preifat; mae'n cynnwys gwybodaeth a chymorth i gael mynediad i rent ymlaen llaw a thystysgrifau gwarantu bondiau.
- Rhestrau eiddo am ddim i landlordiaid ac asiantau sy'n gweithio gyda Bwrdd Bondiau The Wallich.
- Cefnogi landlordiaid drwy newidiadau deddfwriaethol a hyrwyddo arfer da trwy gynnig gwybodaeth, cyngor ac arweiniad am ddim.
- Mynediad i gymorth tenantiaeth hyblyg ac ymatebol sy'n cynnwys: cymorth i adsefydlu, cyfryngau ac ymyrraeth mewn argyfwng i atal digartrefedd. Hefyd gwneir atgyfeiriadau priodol i gael cymorth ychwanegol neu dymor hir, os oes angen.
- System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai am ddim a gynhelir gan yr adran Iechyd yr Amgylchedd a Tai.
- Cysylltiadau ag eiddo gwag, grantiau a chynlluniau benthyciadau'r Cyngor

## Am wybodaeth bellach cysylltwch â:

**Tîm Mynediad Sector Rhentu Preifat The Wallich –** 01792 533139 / 01792 533115
https://thewallich.com/project/swansea-private-rented-sector-project/

**Opsiynau Tai Abertawe** – 01792 533100
housing.options@swansea.gov.uk



# Torfaen


Mae Cyngor Torfaen wedi datblygu amrywiaeth o wasanaethau sydd wedi eu cynllunio i helpu tenantiaid a landlordiaid yn y Sector Rhentu Preifat. Mae'r Tîm Tai yn gyfrifol am:

- Cyngor cyffredinol ar denantiaethau i landlordiaid a thenantiaid fel ei gilydd. Rydym yn cynnig gwasanaeth o ymyrraeth gynnar i ddatrys problemau gyda thenantiaethau a gallwn gyfeirio at asiantaethau priodol yn ôl y gofyn.
- Cyngor a chymorth i gael mynediad i'r sector rhentu preifat gan gynnwys y cynllun bondiau a rhent o flaen llaw.
- Hwyluso'r Hyb Landlordiaid ar ran landlordiaid.
- Amrywiaeth o fenthyciadau i wella cyflwr cartrefi yn y sector rhentu preifat.
- Mynediad ac atgyfeiriad at amrywiaeth o wasanaethau cynorthwyol fel cyngor ar gynhwysiant ariannol, cefnogaeth gyffredinol ar denantiaethau, gwasanaethau cefnogaeth arbenigol fel gwasanaethau trais yn y cartref neu iechyd meddwl a gwasanaeth cyfryngu i bobl ifanc.
- Sesiynau galw i mewn ar gyfer cyngor mewn perthynas â thai pob dydd Llun a Dydd Mercher mewn lleoliadau gwahanol ar draws Torfaen.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Strategaeth Tai.

Ffôn: 01495 742629

E-bost: **housingenabling@torfaen.gov.uk**



# Bro Morgannwg

- Dod o Hyd i Denant
- Gwiriadau credyd tenantiaid
- Rhestr gynnwys cyn cychwyn y denantiaeth ac ar ôl y denantiaeth
- Cefnogaeth i landlordiaid drwy gydol y denantiaeth
- Fforymau rheolaidd i landlordiaid
- Hyfforddiant i landlordiaid
- Gwasanaeth canoli i landlordiaid
- Arolygiadau eiddo

Howard Humphries


Swyddog Caffael Llety ar Rent Preifat

01446 709302

**hhumphries@valeofglamorgan.gov.uk**

**www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/Living/Housing/VATS-Poster.pdf**

# Wrecsam



## Oes gennych chi eiddo i'w osod?

O fuddsoddwr newydd a pherchennog eiddo unigol i ddatblygwyr eiddo proffesiynol gyda phortffolio mawr, rydym ni'n cynnig pecyn gosod hyblyg am bris cystadleuol.

Oherwydd ein bod ni'n rhan o Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam rydym ni'n gallu cynnig ffynhonnell barhaus o denantiaid, gan eich helpu i wneud y gorau o gyfraddau deiliadaeth ac incwm rhent, yn ogystal â darparu staff profiadol sydd â gwybodaeth leol ac ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth heb ei ail i chi.


I gael ymgynghoriad **AM DDIM**, cysylltwch â ni heddiw.

**Ffôn:** 01978 298993
**Ebost:** LocalLettings@wrexham.gov.uk

**Cyfeiriad Post:**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Asiantaeth Gosod Lleol
Adran Tai, Gwarchod y Cyhoedd a'r Amgylchedd, Ffordd Rhuthun,
Wrecsam. LL13 7TD

**Ymwelwch â ni yn:**
Galw Wrecsam
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
16 Stryt yr Arglwydd, Wrecsam
LL11 1LG

**Gwefan:** www.wrecsam.gov.uk




wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

www.wrexham.gov.uk | www.wrecsam.gov.uk

# Landlordiaid – oes gennych chi denant sydd angen bond/blaendal?

## Efallai y bydd Cynllun Bond Pobl yn gallu'ch cynorthwyo â gwarant bond.

Rydyn ni'n gweithredu yn y siroedd dilynol, cysylltwch â ni os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth:

| | |
|---|---|
| Caerffili | 01633 225092 |
| Sir Gaerfyrddin | 01554 899327 |
| Sir Fynwy | 01633 225092 |
| Casnewydd | 01633 225092 |
| Powys | 01597 829373 |
| Torfaen | 01633 225092 |

pobl bond scheme

**Wrthi'n cynorthwyo i atal digartrefedd trwy ddarparu cymorth, cyngor a chymorth ariannol ynghylch tenantiaeth***

* Mae cymorth ariannol wedi'i seilio ar fforddiadwyedd ac amgylchiadau, trwy ddarparu blaendal/bond papur i denantiaid cymwys

tai pawb

promoting equality in housing
hybu cydraddoldeb ym maes tai

Mae gan Tai Pawb dros 60 o aelodau, yn cynnwys cymdeithasau tai, awdurdodau lleol, mudiadau trydydd sector, grwpiau cymunedol ac unigolion o bob rhan o Gymru. Ein haelodau sydd wrth galon ein gwaith. Mae ymuno â Tai Pawb yn amlygu eich ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn eich mudiad ac mae'n cynnig buddion sylweddol. Ymunwch â ni yn ein gwaith i alluogi pawb i gael siawns cyfartal.

Helpwch ni i ysbrydoli pobl a chymunedau i gofleidio cydraddoldeb ac amrywiaeth.

## Darganfyddwch Fwy .


- www.taipawb.org
- helen@taipawb.org
- 029 2053 7635





